# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 18 Awst 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies a J.K. Howell

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.E. Williams

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 12.05 yp - 1.00 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE 11 COWELL STREET, LLANELLI, SA15 1UU

Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Aran Baker am drwydded safle ar gyfer 11 Stryd Cowell, Llanelli, SA15 1DUU i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi Alcohol - Dydd Llun i ddydd Sul 08:00–01:00,
- Oriau Agor - Dydd Llun i ddydd Sul 08:00-01:00

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais
- Atodiad B - Sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad C – Sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad D – Sylwadau a gyflwynwyd gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd
- Atodiad E - Sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y nodwyd yn Atodiad B a hefyd at y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys (Atodiad C) a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd (Atodiad D). Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd wedi newid yr oriau gweithredu arfaethedig i ddod i ben bellach am 11.00 p.m. a'i fod wedi derbyn yr amodau a gynigiwyd gan yr awdurdodau cyfrifol.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan y gwrthwynebwyr yn ail-gyflwyno'r wybodaeth a nodwyd yn Atodiad E yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon a oedd yn bresennol holi'r gwrthwynebwyr ynghylch y sylwadau a wnaed.

Yna rhoddwyd cyfle i Mr Baker (yr Ymgeisydd) gyflwyno'i sylwadau ac ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr. Cadarnhaodd ei fod wedi derbyn y sylwadau a wnaed gan yr Heddlu ac Awdurdodau Iechyd y Cyhoedd ynghylch lleihau oriau agor.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNWYD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt.**
**RHESYMAU:**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded safle o'r blaen.
2. Nid oedd dim hanes o gwynion na chamau gorfodi ar y safle.
3. Nid oedd dim un o'r awdurdodau cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.
4. Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau ar y drwydded yr oedd yr awdurdodau cyfrifol yn gofyn amdanynt.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol, yn enwedig yr Heddlu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Nododd yr Is-bwyllgor y pryderon a godwyd gan y bobl leol hynny a oedd wedi cyflwyno sylwadau ac nid oedd yn amau bod y pryderon yn ddilys. Fodd bynnag, dim ond tystiolaeth gyfyngedig a gyflwynwyd i gefnogi'r pryderon hynny. Felly, nid oedd yr Is-bwyllgor yn teimlo bod ganddo unrhyw gyfiawnhad dros fynd yn groes i farn yr awdurdodau cyfrifol yn yr achos hwn.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd ei bod yn briodol rhoi'r drwydded yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt

rhwng yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol, er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei fod yn ymateb cymesur i'r materion oedd dan sylw.

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**